



## Oedolyn C

Bwriedir i'r astudiaethau achos hyn godi materion mewn cyd-destun ymarferol; gan ddwyn ynghyd y ffactorau hollbwysig, yn enwedig ynghylch gwaith amlasiantaeth. Byddant yn helpu i roi ffactorau risg yn eu cyd-destun a chodi cwestiynau am atal o fewn sefyllfaoedd o gam-drin, esgeulustod a niwed hysbys. Maen nhw wedi'u crynhoi i gynorthwyo gyda'r broses hon, ond mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adroddiadau adolygu go iawn.

### Cyd-destun a chefnidir yr adolygiad

Roedd Oedolyn C yn 92 oed ac yn anffodus bu farw ar 2 Ionawr 2016 o sepsis, haint y llwybr wrinol a dementia. Roedd yr oedolyn hwn yn byw mewn cartref gofal ers 2013.

Roedd Oedolyn C yn byw ym Merthyr Tudful am fwyafrif eu hoes.

### Amgylchiadau, a'r heriau a wynebwyd gan yr unigolyn

- Derbyniwyd Oedolyn C i'r ysbyty ar 29 Rhagfyr 2015 oherwydd pryderon ynghylch pwysedd gwaed isel a phroblemau anadlu.
- Hysbyswyd parafeddygon fod cyflwr Oedolyn C wedi dirywio y diwrnod blaenorol gyda chymeriant diet a hylif gwael.
- Gwnaeth parafeddygon atgyfeiriad amddiffyn oedolion oherwydd esgeulustod posibl ac anaf ar goes dde Oedolyn C nad oedd yn ymddangos ei fod wedi'i drin yn briodol.
- Oherwydd bod y cynllun gofal ar goll o'r cartref, ni allai'r adolygwyr ddeall yn llawn yr amgylchiadau sy'n ymwneud â gofal a ddarperir gan y cartref i Oedolyn C. Nid yw'n glir a fyddai staff wedi bod yn ymwybodol pryd i gynyddu pryderon iechyd corfforol.

### Beth ddigwyddodd?

- Ni wnaed galwadau i feddygon teulu na gwasanaethau brys pan ddirywiodd cyflwr Oedolion C y diwrnod blaenorol.
- Ni ddarparwyd unrhyw gynlluniau gofal gan y cartref gofal (nodwyd eu bod ar goll) dim ond nodiadau dyddiol eu rhannwyd.
- Ni chynhaliwyd cyfarfod strategaeth tan dri mis ar ôl y rhybudd cyntaf pryd y dylai fod o fewn saith diwrnod.
- Cafodd cyfenw Oedolyn C ei gamsillafu a olygai fod oedi cyn ei gysylltu ag atgyfeiriadau blaenorol a wnaed yn ymwneud ag Oedolyn C.



- Nid oedd gweithiwr cymdeithasol Oedolyn C, sy'n gyfrifol am adolygiadau blynyddol, yn ymwybodol o Grŵp Gweithredol Amlasiantaethol (MAOG) a oedd wedi codi sgôr risg ac embargo ar y cartref gofal ac wedi cau'r achos heb ystyried unrhyw oblygiadau ar gyfer gofal Oedolyn C.
- Codwyd dau atgyfeiriad amddiffyn oedolion ar adeg y MAOG oedd yn monitro pryderon ynghylch gofal cyffredinol yn y cartref a'r embargo.
- Cyngorodd y gwasanaeth oedolion y cartref gofal i wneud cais am Ddiogelu Amddifadedd Rhyddid (DoLS) ym mis Chwefror 2015. Dilynwyd hyn ym mis Mawrth 2015 i atgyfnerthu'r angen i wneud cais. Ym mis Mehefin dangosodd cofnod y gwasanaeth oedolion na wnaed unrhyw gais am DoLS gan y cartref gofal, ond ni chymerwyd unrhyw gamau i unioni'r sefyllfa hon.

## Pam y digwyddodd?

- Gwnaed tri atgyfeiriad yn 2015. Gohiriwyd yr atgyfeiriad cyntaf a'r olaf (naill ai wedi'i gamgyfeirio neu heb ei weithredu o fewn yr amserlenni a argymhellir).
- Ni chysylltwyd MAOG a diogelu erioed. Roedd un yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac roedd y llall ar y cartref gofal.
- Roedd yr ymchwiliad nad yw'n droseddol yn aneglur o ran pwy ddylai fod wedi siarad â nhw a'r amserlenni a osodwyd.
- Gwnaed rhagdybiaethau hefyd a aeth heb eu gwirio ac a arweiniodd at wneud argymhellion nad oeddent yn berthnasol.

## Argymhellion yr adroddiad

Mae'r adolygiad achos difrifol yn gwneud chwe argymhelliad:

1. Dylai'r Bwrdd Diogelu sicrhau ei hun bod yr holl drafodaethau / cyfarfodydd strategaeth yn cael eu cofnodi'n gywir a'u cynnwys ar system wybodaeth amlasiantaethol MHub a'u rhannu ag unigolion perthnasol o fewn yr amserlenni a argymhellir. Rhaid cynnwys yr awdurdodau lleoli a'r comisiynwyr hefyd yn y trafodaethau / cyfarfodydd strategaeth.
2. Dylai'r Bwrdd Diogelu dderbyn gwybodaeth gan MAOG er mwyn i'r Bwrdd fod yn sicr o ansawdd y gofal a ddarperir yn y sector cartrefi gofal.
3. Dylai'r Bwrdd Diogelu sicrhau ei hun bod y pryderon diogelu ynghylch unigolyn yn gysylltiedig â phroses sefydliadol y Grŵp Gweithredol Amlasiantaethol (MAOG), er mwyn sicrhau bod y systemau hyn yn rhannu gwybodaeth â'i gilydd ac nad ydynt yn rhedeg ar wahân.
4. Dylai'r Bwrdd Diogelu sicrhau ei hun bod gan gomisiynu awdurdodau lleol brosesau ar waith i sicrhau bod ceisiadau DoLS yn cael eu cyflwyno gan gartrefi gofal yn unol â deddfwriaeth.
5. Dylai'r Bwrdd Diogelu sicrhau ei hun bod proses glir ar gyfer cyflwyno achos i'r Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion a bod staff yn ymwybodol o'r broses a'u cyfrifoldebau.



6. Dylai'r Bwrdd Diogelu sicrhau ei hun bod awdurdodau lleoli yn cael gwybod pan weithredir y broses MAOG o fewn yr awdurdod cynnal.

## Cyfeiriadau

Scott S. a Green T. (2016)  
re:ECPR Denbshire

[http://bwrdddiogelu.cymru/2018/06/17/extended-adult-practice-review-north-wales-4-2016-conwy/?noredirect=cy\\_GB](http://bwrdddiogelu.cymru/2018/06/17/extended-adult-practice-review-north-wales-4-2016-conwy/?noredirect=cy_GB)